

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Mai 11eg, 2017 yn Ffestri Capel Pencaenewydd yn dilyn y Cyfarfod Blynnyddol.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Marian Evans, (Cadeirydd); William Ifor Hughes; Aled Lloyd Evans, Cynghorydd Sir Gwynedd; Margaret Griffith; Tegid Jones; Trefor Wyn Jones; Anwen Jones; Naomi Jones a'r Clerc.

1. Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Sian Angharad Parry a Thomas Prys Jones.

2. Dewis cynrychiolydd i Bwyllgor Rhanbarth Un Llais Cymru. Dewisiwyd y Cynghorydd Trefor W Jones.

3. Dewis cynrychiolydd y Cyngor ar Grwp Mynediad Dwyfor. Penderfynwyd gohirio'r penderfyniad.

4a. Arwyddo Datganiad Derbyn Swydd, Cadeirydd ac Is gadeirydd. Arwyddwyd gan y Cadeirydd; yr Is gadeirydd heb ei ethol eto.

Trwy ganiatad y Cadeirydd:

*4b. Arwyddo Datganiad Derbyn Swydd y Cynghorwyr. Arwyddodd pawb oedd yn bresennol eu datganiadau.

5. Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar Ebrill 6ed, 2017 fel rhai cywir.

6. Arwyddo cadarnhad y taliadau BACS gan y Cadeirydd. Arwyddwyd.

7. Materion yn codi o'r cofnodion. Ar y rhaglen heblaw bu'r Cynghorwyr Margaret Griffith a Thomas Prys Jones yn cynrychioli'r Cyngor yn y gwrandawriad i'r Cynllun Datblygu ar y Cyd Gwynedd a Môn yng Nghaernarfon. Y teimlad oedd nad oedd llawer o ddi-ddordeb yn y sylwadau gyflwynwyd. Yr un oedd teimlad y Cynghorydd Aled Lloyd Evans, Cynghorydd Sirol, fu yn y gwrandawriad y diwrnod canlynol. Y farn oedd mai cynllun y Llywodraeth ar gyfer Gwynedd a Môn ydi hwn.

8. Datgan buddiant personol. Doedd neb yn datgan buddiant personol.

9.. Seddau gwag ar y Cyngor; Ward Llanystumdwy, 2 sedd; Ward Chwilog, 3 sedd; Ward Llanygybi, 1 sedd. Mae'r hysbysion dderbyniwyd gan Gyngor Gwynedd i gael eu gosod yn y manau arferol sef Llanystumdwy, Chwilog, Llanygybi a Phencaenewydd. Nid oes sedd wag yn Ward Rhoslan. Os na fydd ymateb gall y Cyngor gyfethol aelodau newydd.

10. Cyngor Gwynedd.

1. Adran Rheoleiddio, Gwasanaeth Cynllunio; Arwydd ger y fynedfa i safle Tyddyn Morthwyl Camping Site, Rhoslan. Penderfynwyd derbyn y diweddariad bod y ddau arwydd wedi'u symud oddi ar y safle yn dilyn trafodaeth gyda'r perchennog ac y bydd cais yn cael ei gyflwyno yn fuan.

2. Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol); Y Pwyllgor Safonau – Penodi Aelod. Derbyniwyd yr ateb mai o dan Reoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001(rh.10(3)) ei bod yn ofynnol i ymgynghori gyda'r cynghorau cymuned o fewn y sir ac unrhyw gymdeithas sy'n eu cynrychioli, sef Un Llais Cymru yn yr achos yma.

3. Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol. Darllenwyd yr ohebiaeth a phenderfynwyd peidio dilyn y mater ymhellach.

4. Cefnogaeth Gorfforaethol; Adolygiad y Comisiwn Ffiniau Etholaethol yng Ngwynedd. Penderfynwyd cadw llygad ar y sefyllfa.

5. Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd a Bwrdeistrefol; Materion y Gymuned; Lôn Gefn Llanystumdwy; Mynedfa Gefn yr Amgueddfa; Tan yr Erw; Ffordd ger Ynys Creua a Choeden ger Tanllyn, Pencaenewydd. Penderfynwyd derbyn y sylwadau gan y Cyngor Sir.

11. Cyngor Gwynedd – Ceisiadau Cynllunio yn y gymuned.

1. Cais Rhif: C17/0335/41/LL – Dymchwel sied amaethyddol bresennol, a chodi parlwr godro newydd (gyda adnoddau cysylltiol) yn ogystal a chreu ffordd fynediad newydd, man troi ag ail leoli seilo; Ynysgain Fawr, Llanystumdwy. Cefnogwyd.

Trwy ganiatad y Cadeirydd:

*2. Cais Rhif: C17/0424/41/LL – Estyniad unllawr i ochr anecs presennol; 1 Gernant, Station Cottages, Llanybi. Penderfynwyd cefnogi.

12. Cofrestr Buddiannau Aelodau Cyngor Cymuned Llanystumdwy. Penderfynwyd gofyn i Un Llais Cymru am arweiniad.

13. Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Stâd Cae Ffynnon, Llanysumdwy, a llythyrau ynghylch hyn oddi wrth Liz Saville Roberts, AS a Simon Thomas, AC. Penderfynwyd derbyn ac anfon yn ôl at Simon Thomas, AC i ddiolch iddo am ei lythyr ac i ofyn iddo barhau i roi pwysau ar y Cynulliad ynghylch Polisi Cyfnewid Tai, Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

14. Un Llais Cymru:

a. Hyfforddiant Gynefino i Gynghorwyr Newydd. Doedd neb awydd mynd ar y cwrs yma.

b. Cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2017. Cytunodd y Cynghorydd Margaret Griffith i lunio cynnig ar gyfnewid tai cymunedol erbyn cyfarfod nesaf y Cyngor.

15. Materion yn y gymuned.

Llanarmon

Llanystumdwy

Rhoslan

Chwilog

Pencaenewydd/Sardis

Llanybi

Materion gan y Cynghorydd Thomas Prys Jones yn ei absenoldeb.

1. Mae twll cas yn datblygu yn y ffordd ar y tro ger tai Penrallt ger Melin Plas Du. Penderfynwyd anfon y gwyn ymlaen i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd.

2. Mae cyflwr rhannau gwlyb o lwybr Garn Bentyrch trwy'r Winllan i fyny o Ffynnon Gybi yn beryglus - yn enwedig wrth ddod i lawr. Credaf bod angen cyfarfod safle efo Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd i drafod hyn, ac i drafod ad-gyfeirio'r llwybr gyda'r ffens (unwaith eto!).

Penderfynwyd cysylltu gyda Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd a threfnu cyfarfod safle ac i ofyn beth sydd yn digwydd ynghylch y llwybr rhwng Pont Merchaid a Ffynnon Gybi.

16. Ffurflenni Enwebu Cynghorau Cymuned a Thref. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Gyngor Cymuned Llanengan yn dweud bod rhai o'u Cynghorwyr wedi cael trafferth cyflwyno eu ffurflenni enwebu yn Swyddfa'r Cyngor ym Mhwllheli er ei fod yn dweud yn blaen yn y pecyn enwebu y gellid cyflwyno'r ffurflenni yng Nghaernarfon, Dolgellau a Phwllheli. Deallwyd bod rhai o Gynghorwyr Llanystumdwy hefyd wedi cael trafferthion ac yn wir fe gollwyd ffurflen un Cynghorydd. Penderfynwyd anfon llythyr i gwyno at Gyngor Gwynedd ac anfon copi i Gyngor Cymuned Llanengan.

Materion Ariannol

17. Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Rhoddodd y Clerc adroddiad fanwl ar lafar o'r union sefyllfa ariannol, bod y gwariant yn unol â'r gyllideb bennwyd ac nad oes peryg o or wario a'r Cyngor yn mynd i ddyled.

18. Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2017 ymlaen; trafodwyd y prisiau dderbyniwyd gan ddau ymgymwrwr er y gofynnwyd am brisiau i bedwar; chafwyd ddim prisiau gan un a

derbyniwyd un pris rai dyddiau ar ôl y dyddiad cau. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd fel a ganlyn:

a. y llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad. Penderfynwyd derbyn pris Criccieth Cleaning Ltd. o £72.90c + TAW.

b. y llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad. Penderfynwyd derbyn pris Criccieth Cleaning Ltd. o £109.40c + TAW am y ddau doriad.

c. Y llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad. Penderfynwyd derbyn pris Criccieth Cleaning Ltd. o £109.40c + TAW am y ddau doriad.

ch. Y llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad. Penderfynwyd derbyn pris Criccieth Cleaning Ltd. o £109.40c + TAW am y ddau doriad.

d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad. Penderfynwyd derbyn pris Atkin Groundworks o £270- + TAW am y ddau doriad.

dd. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi. Penderfynwyd derbyn pris Criccieth Cleaning Ltd. o £18.23c + TAW.

19. Adroddiad ar gyflwr meinciau'r Cyngor ger Caellobrith, Llanystumdwy a ger mynedfa Stâd Cae Capel, Chwilog. Mae'r fainc ger Caellobrith mewn cyflwr gwael a phenderfynwyd peidio gosod styllod newydd, ei chrafu a'i phaentio yn unig; mae mainc Stâd Cae Capel wedi'i chrafu a'i phaentio fel ag y mae, byddai tynnu'r styllod wedi creu mwy o ddifrod.

20. Cae Chwarae Llanybi. Mae Mr Clifford Hughes, sydd yn torri Cae Chwarae Llanybi newydd dderbyn llawdriniaeth ac fe hysbysodd y Cyngor na all dorri'r cae o hyn ymlaen am eleni. Mae wedi torri'r gwellt ddwywaith eisoes y tymor yma.

Penderfynwyd gofyn i Trefn am bris, bydd angen ei dorri o leiaf dair gwaith eto a glanhau'r matiau a thorri'r drain sydd yn dod drwy'r ffens.

21. Derbyniwyd y llythyr oddi wrth Bwyllgor Mynwent Tai Duon yn diolch am gymorth ariannol.

22. Derbyn taliad cyntaf y praesept gan Gyngor Gwynedd, £7,500-.Penderfynwyd derbyn.

23. Anfoneb angen ei dalu: Yswiriant y Cyngor o Fehefin 1af,2017 i Fai 31ain, 2018; Zurich, £744.50c, taliad BACS. Penderfynwyd ei dalu.

24. Derbyniwyd y llythyr oddi wrth gwmni Lightsource yn cadarnhau'r taliadau er budd cymunedol i'r Cyngor bob blwyddyn am ugain mlynedd, y taliad gafwyd ar Fawrth 31ain, 2017 oedd £3,596.99c a bydd y taliadau yn codi gyda chwyddiant (RetailPrice Index) bob blwyddyn. Gan bod Cyngor newydd wedi'r ffurfio, penderfynwyd penodi'r Pwyllgorau newydd yng nghyfarfod mis Gorffennaf i allu cyfarfod o fis Medi ymlaen.

25. Llythyr oddi wrth Mr J D Roberts, CPFA, Cyfrifydd ac Archwiliwr yn derbyn y gwahoddiad i wneud yr archwiliad mewnol ar gyfrifon y Cyngor am 2016-17.

Derbyniwyd.

26. Gohebiaeth oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch ffioedd archwilio a materion eraill sy'n ymwneud ag archwiliad 2015-16. Derbyniwyd.

It is possible to get a translation of any minute; contact the Clerk.